*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17/06/19** |
| Swyddog Arweiniol | **Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol am y Dyledion Drwg a gafodd eu dileu** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am y dyledion drwg a gafodd eu dileu rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r adroddiad yma yn rhoi gwybod i'r Aelodau mai swm y dyledion drwg a gafodd eu dileu rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 oedd £300.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

5 Ar gais yr Awdurdod, mae'r Trysorydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol yn rhestru'r holl ddyledion dan £5,000 sydd wedi cael eu dileu oherwydd nad oes modd eu hadfer, er gwybodaeth.

**GWYBODAETH**

6 Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, fe wnaeth y Gwasanaeth ddileu un dyled ddrwg o £300.

7 Mae manylion y ddyled hon i'w gweld yn y rhestr atodedig.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae rheoli'r gwaith o adfer dyledion yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yr ATA yn cyflawni ei amcanion llesiant. |
| Cyllideb | Prin yw'r effaith ar y gyllideb; bydd dyled yn cael ei dileu oherwydd nad oes modd ei hadfer, a hynny dim ond ar ôl i'r ATA geisio pob ffordd sydd ar gael i'w hadfer. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr ATA i adfer yr holl arian sy'n ddyledus iddo. Mae cyfrifoldeb ar yr ATA i adfer pob swm o'r fath mor effeithlon â phosibl ac i gymryd camau cynnar yn erbyn y rhai nad ydynt yn talu. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Wrth bennu gordaliadau, penderfynu adfer a cheisio adfer, bydd y swyddogion yn gwneud hyn yn sensitif gan barchu hawliau cwsmeriaid. |
| Risgiau | Mae dulliau adfer yn cael eu rheoli er mwyn lleihau'r risg o golled ariannol. |

| Rhif Anfoneb | Dyddiad anfon | Enw | Swm gwreiddiol | Swm a gafodd ei ddileu | Rheswm | Dyddiad dileu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 280090412 | 10/08/2016 | Cyn-weithiwr | £572.50 | £300.00 | Wedi dihysbyddu pob dull adfer | 05/07/18 |
| **TOTAL** | | | | **£300.00** | | |